**Y Pwyllgor Busnes** **BC111- 01(terfynol)**

COFNODION Y CYFARFOD

**Dyddiad:** Dydd Mawrth, 27 Mawrth 2001
**Amser:** 9.00am
**Lleoliad:** Ystafell A3.13

**Yn bresennol:**
John Marek, Dirprwy Lywydd (Cadeirydd)
Andrew Davies, Y Trefnydd
Jocelyn Davies, Rheolwr Busnes Plaid Cymru
William Graham, Rheolwr Busnes y Blaid Geidwadol

Paul Silk, Clerc y Cynulliad
John Lloyd, Cyn Glerc y Cynulliad
Marie Knox, Pennaeth Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgorau
Marion Stapleton, Ysgrifennydd Preifat y Trefnydd
Craig Stephenson, Ysgrifenyddiaeth y Siambr
Alun Gruffudd, Ysgrifennydd Preifat y Dirprwy Lywydd
Nerys Arch, Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol (eitem 4 ar yr agenda)
David Williams, Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol (eitemau 4 a 9 ar yr agenda)
Jill Thomas, y Swyddfa Gyflwyno (eitem 5 ar yr agenda)

## 1. Ymddiheuriadau a chyhoeddiadau

1.1 Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb Kirsty Williams, David Lambert ac Andrew George.

## 2. Cofnodion y cyfarfod blaenorol

**BC90-01 (terfynol)**

2.1 Cyflwynwyd y cofnodion terfynol i'r Pwyllgor yn eu ffurf derfynol. Gan nad oedd sylwadau byddant yn cael eu cyfieithu yn barod i'w cyhoeddi.
**Gweithredu: Ysgrifenyddiaeth y Siambr**

**BC103-01 (drafft)**

2.2 Cyflwynwyd y cofnodion drafft i'r Pwyllgor. Awgrymwyd rhai mân newidiadau a fydd yn cael eu cynnwys yn y fersiwn terfynol a gaiff ei gyflwyno i'r Pwyllgor yn y cyfarfod nesaf. **Gweithredu: Ysgrifenyddiaeth y Siambr**

## 3. Materion yn codi

3.1 **Paragraff 3.1** – Dywedodd Marie Knox fod 23 Mai yn edrych yn fwy addawol o safbwynt aildrefnu cyfarfodydd y pwyllgor i roi rhwydd hynt i Gyfarfod Llawn a allai gael ei symud pe bai etholiad cyffredinol ar 3 Mai.

Cytunodd y Pwyllgor y byddai 23 Mai yn addas os cynhelir yr etholiad ar 3 Mai.

3.2 **Paragraff 3.2** – Dywedodd y Dirprwy Lywydd fod David Lambert wedi bod yn trafod y papur arfaethedig ar gyhoeddi gorchmynion y Cynulliad gyda'r Cwnsler Cyffredinol. Fodd bynnag, yn ei absenoldeb, byddai'r mater yn cael ei ohirio am wythnos arall.

3.3 **Paragraff 3.3** – Dywedodd y Trefnydd y gofynnwyd i'r Cwnsler Cyffredinol edrych ar gyflwyno gwybodaeth ynghylch gorchmynion trosglwyddo swyddogaethau yn y dyfodol a byddai'n adrodd yn ôl yn y man. Tynnodd Jocelyn Davies sylw at y ffaith bod Edwina Hart wedi gwneud y pwynt y dylid gofyn i swyddogion baratoi gwybodaeth o'r fath yn gynharach yn ystod y broses ddrafftio yn hytrach nag yn union cyn iddo gael ei ystyried yn y Cyfarfod Llawn. Nododd y Pwyllgor adroddiad gan bwyllgor dethol Ty'r Arglwyddi a ddosbarthwyd gan y Dirprwy Lywydd ac a oedd yn rhoi enghraifft o wybodaeth o'r fath ar ffurf gyfeillgar i'r defnyddiwr. **Gweithredu: Y Trefnydd i adrodd yn ôl**

3.4 **Paragraff 3.5** – Dywedodd y Dirprwy Lywydd ei fod wedi ysgrifennu at Gadeirydd y Pwyllgor Amaethyddiaeth yn gofyn a fyddai gan y Pwyllgor ddiddordeb mewn ystyried y Gorchymyn Ardal Pysgodfeydd Môr De Cymru (Amrywio) yn anffurfiol yn ei gyfarfod ar 28 Mawrth. Yn ôl y cais, roedd y Trefnydd wedi rhoi cyfle i gynnal dadl ar y gorchymyn drafft yn y Cyfarfod Llawn ar 29 Mawrth.

3.5 Dywedodd Jocelyn Davies fod y camau a gymerwyd gan y Pwyllgor Busnes yn pwysleisio'r angen am ragor o amser i'r Rheolwyr Busnes a'r Aelodau archwilio'r gorchmynion drafft yn fanwl. Nododd fod y Gorchymyn Ardal Pysgodfeydd Môr De Cymru (Amrywio) wedi dod i'r Pwyllgor Busnes yn rhy hwyr i'r pwyllgor pwnc ei ystyried. Dywedodd Marion Stapleton fod y Weithrediaeth yn cyflawni ei hymrwymiad o dan Reol Sefydlog 22.1 drwy gyhoeddi'r gorchmynion drafft rhwng 5 a 10 diwrnod cyn i'r Pwyllgor Busnes eu hystyried. Fodd bynnag, cytunodd i ofyn i Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol i nodi'r dyddiad cyhoeddi ar flaen y taflenni a oedd yn dod gyda'r gorchmynion drafft i'r Pwyllgor Busnes. **Gweithredu: Marion Stapleton i drefnu**

3.6 **Paragraff 3.6** – Dywedodd y Trefnydd fod y Cabinet yn ystyried y mater o hysbysu'r Aelodau rhanbarthol a'r Aelodau cyntaf i'r felin pan yn ymweld ag etholaeth yn swyddogol. Roedd yn ymwybodol fod angen arddel cwrteisi lle bynnag y bo'n bosibl a chytunodd i adrodd yn ôl. Teimlai'r Rheolwyr Busnes na ddylai hysbysu trwy'r E-bost fod yn ormod o straen ar ysgrifenyddion y dyddlyfr yn Ysgrifenyddiaeth y Cabinet o ran adnoddau. **Gweithredu: Y Trefnydd i adrodd yn ôl**

3.7 **Paragraff 5.3** – Dywedodd y Trefnydd fod ei grwp ef yn dal heb gwblhau ei ystyriaeth o'r opsiynau ar gyfer toriad y Nadolig. Byddai'n adrodd yn ôl yn y man. **Gweithredu: Y Trefnydd**

**<u>4. Is-ddeddfwriaeth</u>**

**Rheoliadau Ychwanegion Bwyd Amrywiol (Diwygio) (Cymru) 2001**

4.1 Nododd y Pwyllgor Busnes bapur BC98-01 (wedi'i ddiwygio) a oedd yn cynnwys cyngor oddi wrth Jane Hutt, Gweinidog y Cynulliad dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar ymdrin â'r Gorchymyn uchod. Dywedodd aelodau'r Pwyllgor Busnes wrth y Dirprwy Lywydd eu bod yn fodlon ar y cynnig i beidio ag anfon y Gorchymyn drafft at bwyllgor pwnc a chytunwyd y dylai ddilyn y weithdrefn Gyflymach.
**Yn dilyn hyn, penderfynodd y Dirprwy Lywydd nad oedd angen cyfeirio'r gorchymyn at bwyllgor pwnc.**

**Gorchymyn Crafangau Crancod (Gwahardd eu Glanio) (Diddymu) (Cymru) 2001**

4.2 Nododd y Pwyllgor Busnes bapur BC105-01 a oedd yn cynnwys cyngor oddi wrth Carwyn Jones, Gweinidog y Cynulliad dros Faterion Gwledig ar ymdrin â'r Gorchymyn uchod. Dywedodd aelodau'r Pwyllgor Busnes wrth y Dirprwy Lywydd eu bod yn fodlon ar y cynnig i beidio ag anfon y Gorchymyn drafft at bwyllgor pwnc a chytunwyd y dylai ddilyn y weithdrefn Gyflymach.
**Yn dilyn hyn, penderfynodd y Dirprwy Lywydd nad oedd angen cyfeirio'r gorchymyn at bwyllgor pwnc.**

**Gorchymyn Gwyniaid Rhy Fach (Diddymu) (Cymru) 2001**

4.3 Nododd y Pwyllgor Busnes bapur BC106-01 a oedd yn cynnwys cyngor oddi wrth Carwyn Jones, Gweinidog y Cynulliad dros Faterion Gwledig ar ymdrin â'r Gorchymyn uchod. Dywedodd aelodau'r Pwyllgor Busnes wrth y Dirprwy Lywydd eu bod yn fodlon ar y cynnig i beidio ag anfon y Gorchymyn drafft at bwyllgor pwnc a chytunwyd y dylai ddilyn y weithdrefn Gyflymach.
**Yn dilyn hyn, penderfynodd y Dirprwy Lywydd nad oedd angen cyfeirio'r gorchymyn at bwyllgor pwnc.**

4.4 Ystyriodd y Pwyllgor bapur BC110-01 ar Adran 2(2) Deddf Cymunedau Ewropeaidd 1972 a chynnig i ddirprwyo Swyddogaethau'r Cynulliad i'r Prif Weinidog. Rhoddodd David Williams, Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol, wybodaeth gefndirol am y cynnig. Yn dilyn cais gan y Rheolwyr Busnes i ystyried y manylion gyda'u grwpiau, cytunodd y Gweinidog i amserlennu'r ddadl ar ddydd Iau 5ed Ebrill gan fod angen i'r darpariaethau ddod i rym cyn toriad y Pasg.

**5. Cyngor ar Weithdrefnau'r Cynulliad**

5.1 Ystyriodd y Pwyllgor bapurau BC83-01 a BC97-01 ar gwestiynau llafar i'r Trefnydd a chytunwyd arnynt. Cytunwyd y dylid diwygio'r Rheol Sefydlog 6.3 (iii) arfaethedig i ddweud "o leiaf pum munud, bob pedair wythnos" yn lle 15 munud. **Gweithredu: Ysgrifenyddiaeth y Siambr i baratoi Adroddiad y Pwyllgor Busnes**

5.2  Ystyriodd y Pwyllgor bapur BC107-01 ar arweiniad diwygiedig ar gwestiynau llafar ac ysgrifenedig.  Cytunwyd i ymgynghori â'r holl Aelodau ar y cynigion ac y byddai grwpiau ffocws yn cael eu sefydlu.  **Gweithredu:  Y Swyddfa Gyflwyno i ymgynghori â'r Aelodau**

## 6.  Pwyllgorau

6.1  Dim.

## 7.  Busnes sydd ar y gweill

**Busnes yr wythnos hon**

7.1 Ystyriodd y Pwyllgor bapur BC108-01 oedd yn cynnwys manylion y busnes a gytunwyd ar gyfer y Cynulliad ar gyfer yr wythnos.  Dywedwyd wrth y Pwyllgor y byddai Edwina Hart yn gwneud datganiad ar ran y Cabinet y prynhawn hwnnw ar gymorth trethi busnes.  Efallai y bydd y Weithrediaeth hefyd yn ymateb i gais am gwestiwn brys ar gyllid addysg uwch.  Dywedodd y Trefnydd nad oedd yn gwybod ar hyn o bryd a fyddai'r Cabinet yn ymateb i'r cais trwy wneud datganiad.
a
7.2  Dywedwyd wrth y Pwyllgor hefyd fod busnes ar ddydd Iau 29 Mawrth yn cael ei newid i roi rhwydd hynt i ddadl frys ar yr achosion o glwy'r Traed a'r Genau a'r Gorchymyn Ardal Pysgodfeydd Môr De Cymru (Amrywio).  Cynigiodd y Gweinidog i ohirio'r ddadl ar BSE tan 1af Mai.  Efallai y byddai datganiad ar Corus yn digwydd hefyd ond byddai hynny'n dibynnu ar unrhyw gyhoeddiadau a wnaed ar ôl y moratoriwm.

7.3  Ystyriodd y Pwyllgor y datganiad busnes drafft diwygiedig (BC109-01).

**Busnes arfaethedig ar gyfer yr wythnosau'n cychwyn 2 a 30 Ebrill a 7 Mai 2001**

7.4 Cyngor y Pwyllgor i'r Trefnydd ar ei ddatganiad arfaethedig ynghylch trefnu busnes y Cynulliad ar gyfer yr wythnosau'n cychwyn 2 a 30 Ebrill a 7 Mai oedd y dylai fynd yn ei flaen fel yr amlinellwyd yn y datganiad busnes drafft diwygiedig.

7.5  Gofynnodd Jocelyn Davies a fyddai'r Gweinidog yn ystyried amserlennu dadl ar gyllid addysg uwch yng Nghymru.  **Gweithredu:  y Trefnydd i ystyried**

7.6  O gofio proffil uchel yr achosion o glwy'r Traed a'r Genau dywedodd William Graham fod y Ceidwadwyr Cymreig yn siomedig nad oedd y Prif Weinidog, o gofio'i gyfrifoldeb cyffredinol, yn cyflwyno datganiadau'r Cabinet ar ei effeithiau.

## 8. Materion a gyfeiriwyd o'r cyfarfodydd llawn

8.1 Dim

**9. Diwygiadau i'r Rheoliadau Sefydlog**

9.1 Ystyriodd y Pwyllgor bapur BC101-01 (wedi'i ddiwygio) ar y diwygiadau arfaethedig i Reolau Sefydlog 34 a 23 a chytunwyd arnynt. Cytunwyd y byddai Adroddiad y Pwyllgor Busnes yn cael ei ddrafftio a'i ddosbarthu ar frys i alluogi'r ddadl am gymeradwyo'r diwygiadau ddigwydd ar 5 Ebrill.
**Gweithredu: Ysgrifenyddiaeth y Siambr i baratoi adroddiad**

**10. Penderfyniadau'r Llywydd**

10.1 Dim

**11. Unrhyw fater arall**

11.1 Gofynnodd y Dirprwy Lywydd i'r Trefnydd a allai Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol edrych yn fanylach ar ansawdd y rheolau drafft. Roedd wedi bod yn bryderus ynghylch yr holl femoranda am gywiriadau a baratowyd gan y Pwyllgor Deddfau a theimlai na fyddai angen y rhain pe bai rhagor o sylw wedi'i dalu i'r gorchmynion wrth eu drafftio. Cytunodd y Gweinidog i ystyried y mater gyda'i gyd-weithwyr. **Gweithredu: Y Trefnydd**

11.2 Gofynnodd Jocelyn Davies i'r Trefnydd nodi nad oedd ei grwp yn fodlon gyda'r atebion a roddwyd gan Aelodau'r Cabinet i gwestiynau o ganlyniad i ddatganiadau yn y Cyfarfodydd Llawn.

**YSGRIFENYDDIAETH Y SIAMBR**